

JOHNES, THOMAS (1748 - 1816), o'r Hafod, Sir Aberteifi, tîrfeddiannwr, arloeswr amaethyddol, a llenor

Enw: Thomas Johnes

Dyddiad geni: 1748

Dyddiad marw: 1816

Priod: Jane Johnes (née Johnes)

Priod: Maria Johnes (née Burgh)

Plentyn: Mariamne Johnes

Rhiant: Thomas Johnes

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: tîrfeddiannwr, arloeswr amaethyddol, a llenor

Cartref: Hafod

Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Natur ac Amaethyddiaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Dafydd Jenkins

Ganwyd yn Llwydlo, 20 Awst 1748 (Hen Ddull), plentyn hynaf Thomas Johnes (bu farw 1780; aelod seneddol sir Faesyfed 1777-80; o linach Syr Thomas Johnes o Abermarlais, nai i [Syr Rhys ap Thomas](#)) ac Elizabeth Knight (cyfnither i Richard Payne Knight, gweler *D.N.B.*). Addysgwyd ef yn Amwythig, Eton, a Phrifysgol Edinburgh, ond heb raddio. Bu'n aelod seneddol bwrdeisdrefi Ceredigion 1775-80, sir Faesyfed 1780-96, Ceredigion 1796-1816; cyrnol milisia sir Gaerfyrddin 1779-98; arglwyddraglaw Ceredigion 1800-16.

Priododd Johnes (1), 1779, Maria (bu farw 1782), merch y Parch. Henry Burgh o Drefynwy, a (2), 1782, ei gyfnither Jane Johnes o Ddolau Cothi, Sir Gaerfyrddin (1759 - 1834). Yn 1783 aeth i fyw i Hafod Uchtryd, ger Cwmystwyth yng Ngheredigion, ac am y gweddill o'i oes bu'n ymgeleddu ei stad yno. Adeiladwyd plasty newydd iddo gan Thomas Baldwin (gweler *D.N.B.*), ac ychwanegwyd ato gan [John Nash \(gweler arno\)](#); llosgwyd y tŷ yn 1807, ond ailgodwyd ef gan Baldwin. Adeiladwyd hefyd lawer o dai newydd ar hyd y stad, cyflogwyd meddyg i ofalu am y tlodion, codwyd eglwys newydd, ac agorwyd ysgol i ferched; ond rhoddwyd y prif sylw i'r tir. Gwnaed gerddi cywrain ar dir y plas; gwnaed arbrofion mewn bridio gwartheg a defaid a chydau chnydau newydd, a phlannwyd coed ar y tir na ellid ei drin; cafodd Johnes fedal y 'Royal Society of Arts' bum gwaith am blannu coed. Ceisiai symbylu ei denantiaid i wella'u dulliau; cyhoeddodd yn 1800 *A Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants* a chyfieithiad Cymraeg (gan [William Owen Pughe](#)), *Cynghorion Priodwr o Geredigion i Ddeiliaid ei Dyddynod*, a chynigiodd wobrau am gnydau da; bu hefyd yn gefnogydd mawr i'r 'Gymdeithas er Cefnogi Hwsmonaeth a Diwdrwydd yn sir Aberteifi,' a sefydlwyd yn 1784.

Aeth yr Hafod yn gyrchfan mawr i deithwyr, rhwng atyniadau prydfferthwch yr ardal a gwaith Johnes oddi allan ac oddi fewn i'r plas. Casglasai ef lawer o weithiau celfyddyd, ond rhoddodd y pris mwyaf ar ei lyfrgell, yn cynnwys amryw o lawysgrifau [Edward Lhuyd](#) (a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r [The Myyrrian Archaeology of Wales](#)) a llawysgrifau ac argraffiadau o

gronclau Ffrangeg diwedd yr Oesau Canol. Gwnaeth Johnes astudiaeth arbennig o'r rheini; cyhoeddodd yn 1801 gyfieithiad Saesneg o gofiant i Froissart, ac yn 1803 dechreuodd gyhoeddi ei gyfieithiad o groncl Froissart o'i wasg ei hun yn yr Hafod, lle'r oedd Sgotyn, James Henderson, yn argraffydd. Cyhoeddwyd hefyd o wasg yr Hafod ei gyfieithiadau o gronclau Joinville, 1807, De la Brocquiere, 1807, a Monstrelet, 1808, argraffiadau newydd o'r cofiant i Froissart, 1810, a'r *Advice to his Tenants*, ac adroddiadau'r Gymdeithas Hwsmonaeth am rai blynyddoedd.

Bu i Thomas a Jane Johnes fab a fu farw'n faban, a merch, Mariamne, a aned yn 1784. Disgwylid ei gweld hi'n parhau gwaith ei thad yn yr Hafod, ond bu farw ar daith i Lundain yn 1811. Dechreuodd iechyd Johnes dorri yn fuan wedyn, a chan ei fod mewn anawsterau ariannol gwnaeth drefniant yn 1814 i werthu'r hawl i'r Hafod a'i gynnwys wedi'i ddydd ef, a chymryd 'bwthyn' ger Dawlish yn Nyfnaint i dreulio'r gaeaf a'r gwanwyn. Bu farw yn y bwthyn hwnnw, 23 Ebrill 1816.

Awdur

Dafydd Jenkins, (1911 - 2012)

Ffynonellau

D. Jenkins, *Thomas Johnes o'r Hafod 1748-1816* (Caerdydd 1948), a'r ffynonellau a enwir yno

Darllen Pellach

Thomas Johnes, *A catalogue of the Hafod Library* (Hafod Press 1807)

Erthygl Wicipedia: [Thomas Johnes](#)

Gweithiau

Thomas Johnes, *Memoirs of the life of Sir John Froissart* (Hafod Press 1810)

Thomas Johnes, *The travels of Bertrandon de La Brocquiere, Counsellor & First Esquire-Carver to Philippe Le Bon, Duke of Burgundy, to Palestine* (Hafod Press 1807)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [62351038](#)

Wikidata: [Q7791344](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

